# CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul ar 10 Hydref 2011**
**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 10 October 2011**

**Yn Bresennol/Present**: Cyng/Cllrs Tom Cowcher Douglas Davies Peter Davies Mrs Philippa Davies Wyn Evans Terry Griffiths Andrew Howell Philip Marchant (Is-Gadeirydd/Vice Chairman) Mrs Carolyn Reed-Rees a/and Breian Teifi.

**Chair -** Yn absenoldeb Mrs Eileen Curry galwodd y Cyngor ar Gynghorydd Philip Marchant (Is-Gadeirydd) i lywyddu fel Cadeirydd/In the absence of Cllr Mrs Eileen Curry the Council called upon Cllr Philip Marchant (Vice Chairman) to preside as chair.

**Croeso/Welcome –** Estynwyd croeso cynnes i bawb yn enwedig Cyng Terry Griffiths ar ôl cyfnod o salwch. A warm welcome was extended to all, especially Cllr Terry Griffiths after a period of ill health.

1 **Cyflwyniad/Presentation** - RAY Ceredigion – Mynychodd Cathryn Morgan y cyfarfod a chafwyd cyflwyniad byr. Cadarnhawyd bob y sesiynau chwarae yn llwyddiannus/Cathryn Morgan attended the meeting and gave a short presentation. It was confirmed that the play sessions are successful.

2 **Cyflwyniad/Presentation** - Ieuenctid Tysul Youth - Mynychodd Steve Parkin a Marc Folds a chafwyd cyflwyniad ynglŷn â'i bwriad i gael prosiect Celf yn y Parc/Steve Parkin and Marc Folds attended the meeting and gave a presentation on their proposed project of Art in the Park.

3 **Ymweliad/Visit CCTV -** Mynychodd Heddwas Dafydd Jones y cyfarfod ond eto, nid oedd y Cyng Gareth Williams yn bresennol. Penderfynwyd y bydd cynrychiolwyr yn ymweld â Gorsaf Aberystwyth i weld y system yn gweithio a bydd Heddwas Dafydd Jones yn gwneud trefniadau gyda'r Clerc i arbenigwyr i ddod i Gyfarfod Arbennig yn Llandysul/Pc Dafydd Jones attended the meeting but again, Cllr Gareth Williams was not present. It was decided that representatives will attend the Police Station at Aberystwyth to view the system working and Pc Dafydd Jones will make arrangements with the Clerk for specialists to attend a Special Meeting at Llandysul. (Cyrhaeddodd Cyng Tom Cowcher a Breian Teifi ar yr adeg hon/Cllrs Tom Cowcher and Breian Teifi arrived at this stage)

4 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies were received from:- Cyng/Cllrs Richard Anwyl Mrs Eileen Curry Beth Davies and Keith Evans

5 **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest:** Ieuenctid Tysul Youth - Datgelwyd diddordeb gan Gyng Andrew Howell ond ni adawodd yr ystafell ar gyfer y cyflwyniad /Cllr Andrew Howell declared an interest but did not leave the room for the presentation.

6 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 12 Medi 2011 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan Gyng Philip Marchant a oedd yn llywyddu fel Cadeirydd/ Minutes of monthly meeting held on 12 September 2011 were accepted as correct and signed by Cllr Philip Marchant presiding as Chairman.

7 **Materion yn Codi** – Canolfan Deuluoedd Llandysul – mae prosiect Bwyta'n Iach yn cael ei hysbysebu'n dda ac mae'n mynd rhagddo yn dda iawn. Cafwyd adroddiad gan Gyng Mrs Carolyn Reed-Rees am y Cynllun Diogelwch Cymunedol.

8 **Rhoddion** –
i) **Ieuenctid Tysul Youth** – "Celf yn y Parc" Anfonwyd ffurflen ymlaen (gweler "2" uchod hefyd).
ii) **Apêl y Pabi** – (a137) Penderfynwyd y bydd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees yn gosod y dorch. Cynigiodd Douglas Davies y dylid rhoi rhodd o £65 tuag at y dorch, eiliwyd hyn gan Gyng Tom Cowcher ac fe'i derbyniwyd.
iii) **Sgowtiaid 1af Llandysul** – (a145) Arddangosfa Tân Gwyllt – Cynigiodd Cyng Wyn Evans y dylid rhoi £250, eiliwyd hyn gan Gyng Tom Cowcher ac fe'i derbyniwyd.
iv) **Eglwys Tre-groes Church** – Bydd hwn yn aros ar yr Agenda.
v) **Neuadd Pont-siân Hall** – Bydd hwn yn aros ar yr Agenda.
vi) **Eglwys Pont-siân Church** – Bydd hwn yn aros ar yr Agenda.
vii) **Urdd Gobaith Cymru** – Gofynnwyd i ni ystyried rhoi tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Swyddfa yng Ngheredigion. Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i barhau i roi'n lleol yn ôl y gofyn.
viii) Cafwyd **Cydnabyddiaeth Derbyn Rhoddion** wrth Gymdeithas Cylch ac Ysgol Tre-groes a Sioe Pren-gwyn.

9 **Biniau Halen/Graean** – Unwaith eto, cafwyd trafodaeth hirfaith. Mae Cynghorwyr Wyn Evans ac Andrew Howell wedi bod o gwmpas yr ardaloedd, gan farcio'r safleoedd arfaethedig. Bydd Cyng Andrew Howell yn trefnu cyfarfodydd safle gyda Cheredigion yn y lleoliadau y mae angen eu cymeradwyo. Rydym yn aros i glywed gan ULlC ynghylch yswiriant.

10 **CAVO** – Adroddodd Cyng Tom Cowcher na fu modd iddo fynychu'r cyfarfod ynghylch Trafnidiaeth.

7 **Matters Arising** – Llandysul Family Centre – Healthy Eating is well advertised and the project is running very well. Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees gave a report on the Community Safety Plan.

8 **Donations** –
i) **Ieuenctid Tysul Youth** – "Art in the Park" Form has been forwarded (also see "2" above).
ii) **Poppy Appeal** – (s137) It was decided that Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees will lay the wreath. It was proposed by Douglas Davies to give a donation of £65 towards the wreath, this was seconded by Cllr Tom Cowcher and carried.
iii) **1st Llandysul Scouts** – (s145) Fireworks Display – Cllr Wyn Evans proposed £250, this was seconded by Cllr Tom Cowcher and carried.
iv) **Eglwys Tregroes Church** – To remain on the Agenda.
v) **Neuadd Pontsian Hall** – To remain on the Agenda.
vi) **Eglwys Pontsian Church** – To remain on the Agenda.
vii) **Urdd Gobaith Cymru** – We were asked to consider donating towards the National Eisteddfod and the Office at Ceredigion. It was unanimously decided to continue to donate locally when requested.
viii) **Acknowledgements of Receipt of Donations** were received from Tregroes School and District Association and Prengwyn Show.

9 **Salt/Grit Bins** – A lengthy discussion again took place. Cllrs Wyn Evans and Andrew Howell have been around the areas and marked the proposed locations. Cllr Andrew Howell will arrange site meetings with Ceredigion at the locations for approval. We await to hear from OVW re insurance cover.

10 **CAVO** – Cllr Tom Cowcher reported that he had not been able to attend the meeting on Transport.

11 **Bancio** – Cafwyd llythyr wrth HSBC yn ein hysbysu nad oeddent yn ymwybodol o'r ffaith bod y gangen yn mynd i gau ar yr adeg pan oeddem yn cael trafodaeth gyda nhw. **Banc National Westminster** – Erbyn hyn, mae'r Clerc wedi llenwi'r ffurflenni er mwyn trosglwyddo'r cyfrif o Lloyds i Nat West, fe'u llofnodwyd gan y Pwyllgor Cyllid ac fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor. Ar ôl cynnal trafodaeth, penderfynwyd buddsoddi £20,000.

12 **Gohebiaeth**:-
a)Cafwyd y canlynol wrth **Geredigion** – Cyfarfod i'w gynnal ar 27.10.2011 – Cwestiynau i'w gofyn:- Gorchmynion Diogelu Coed (TPOs), Safon y gwaith o dorri cloddiau wrth ymyl y Ffordd, Polion BT ger Dolwallter, Coeden ger Dolwallter, trefniadau glanhau'r Strydoedd yn Llandysul, ffioedd parcio, dyfodol Toiledau Cyhoeddus, Cyllid ac Addysg yn Llandysul. Unwaith eto, tynnwyd sylw'r Cyngor at Gronfa Adnewyddu Ceredigion ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned ynghyd â Cynnal y Cardi – Bydd cynrychiolydd o Geredigion yn mynychu ein cyfarfod nesaf. Cafwyd anfoneb am y swm o £230 am gasglu gwastraff o'r parc a derbyniwyd y dylid ei thalu. Cafwyd gwahoddiad i'r Cadeirydd fynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Llandysul er mwyn dathlu 40 mlynedd, a fydd yn cyd-fynd ag ymweliad Iarll Wessex. Nid oes modd i'r Cadeirydd na'r Is-Gadeirydd fynychu, a bydd Cyng Breian Teifi a Chyng Wyn Evans yn cynrychioli'r Cyngor. Mae modd gweld y Siarter Gorfodi Cynllunio Ddrafft ar y wefan.
b) **ULlC** – cafwyd Y Llais. Cafwyd gwybodaeth ynghylch Penodi Hyrwyddwyr Hyfforddiant, bydd Cyng Andrew Howell yn cynrychioli'r Cyngor. Cynhadledd ULlC – cafwyd adroddiad gan Gyng Andrew Howell. Cafwyd anfoneb o £56 am y costau teithio i'r gynhadledd eleni ac y llynedd, a derbyniwyd y dylid ei thalu. Cafwyd gwybodaeth ynghylch y Gronfa Loteri Fawr ac roedd wedi cael ei dosbarthu. Cafwyd hysbysiad ynghylch cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion a bydd Cyng Andrew Howell yn mynychu.
c) **Ysgol Gynradd Gymunedol Llandysul** - Cafwyd llythyr ynghylch dathlu 40 mlynedd ac ymweliad Iarll Wessex, fel y trafodwyd uchod.

11 **Banking** – Letter was received from HSBC informing that when we were in discussion with HSBC, they were unaware that the branch was to close. **National Westminster Bank** – The forms for transferring the account from Lloyds to Nat West have now been completed by the Clerk, signed by the Finance Committee and approved by the Council. After a discussion it was decided to invest £20,000.

12 **Correspondence**:-
a)The following were received from **Ceredigion** – Meeting to be held on 27.10.2011 – Questions to be asked:- Tree Preservation Orders (TPOs), Standard of hedge thrashing on road side, BT Poles near Dolwallter, Tree near Dolwallter, Street cleaning at Llandysul, Car parking fees, future of Public Toilets, Finance and Education in Llandysul. Ceredigion Community and Town Councils Village Renewal Fund was again brought to the Council's attention together with Cynnal y Cardi – Representative from Ceredigion will be attending our next meeting. Invoice for the collection of waste from the park in the sum of £230 was received and passed for payment. An invitation was received for the Chair to attend Llandysul Community Primary School for the celebration of 40 years which coincides with the visit of Earl Wessex. Chair and Vice-Chairman are unable to attend, Cllr Breian Teifi and Cllr Wyn Evans will represent the Council. Planning Enforcement Draft Charter can be viewed on the website.
b) **OVW** – The Voice was received. Information was received re Appointment of Training Champions, Cllr Andrew Howell will represent the Council. OVW Conference – Cllr Andrew Howell gave a report. Invoice was received for travelling for this year and last year in the sum of £56 and passed for payment. Information was received re Big Lottery Fund and had been circulated. Notice of Ceredigion Area Committee meeting was received and Cllr Andrew Howell will be attending.
c) **Llandysul Community Primary School** - Letter was received re celebrating 40 years and Earl Wessex's visit as discussed above.

d) **SLCC** – Cafwyd gohebiaeth. Cynhelir cyfarfod cangen Gorllewin Cymru ar 29 Hydref 2011, bydd y Clerc yn mynychu.
e) **Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru** – Cafwyd hysbysiad am y cyfarfod a gynhelir ar 13 Hydref 2011 ynghylch Canu Carolau.
f) Cafwyd **Anfoneb** am y swm o £244.35 gan Llinos Jones am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Gorffennaf a mis Medi, a derbyniwyd y dylid ei thalu.

13 **Maesymeillion – Cynllun Carthffosiaeth** – Anfonir llythyr dilynol pellach.
14 Bydd **Glanhau'r Strydoedd yn Llandysul/Glanhau'r Gymuned** yn aros ar yr Agenda.
15 **Ciosgau Coch** – Cynhaliwyd cyfarfodydd safle pellach ac mae cynnydd yn cael ei sicrhau.
16 **Tariannau** – Archebwyd tariannau.
17 Bydd **Polion BT ger Dolwallter** yn aros ar yr Agenda a bydd y mater yn cael ei godi gyda Cheredigion.
18 **Baw Cŵn** – Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda'r Warden Cŵn sy'n gyfrifol am ardal Llandysul ynglŷn ag arwyddion ac mae yn asesu'r sefyllfa.
19 **Gwobr y Gymuned** – Ni wnaethpwyd unrhyw enwebiadau. Penderfynwyd ymestyn y dyddiad cau i 31 Ionawr 2012.
20 Bydd **Pobl Ifanc yn y Gymuned – Meini Prawf** yn aros ar yr Agenda.
21 **Datblygiadau Blodau yn Llandysul** – Mae plannu ar gyfer y gaeaf yn cael ei drafod.
22 **Datblygiadau Goleuadau Nadolig Llandysul** – Bydd hwn yn cael ei osod ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod mis Ionawr.

23 **Cynllunio**: Cafwyd hysbysiad am Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 12 Hydref, 2011.
Datgelodd y Cyng Mrs Philippa Davies ddiddordeb ynglŷn a chais Tŷ Cerrig ac ni wnaeth unrhyw sylwad.
Cymeradwywyd y cynlluniau canlynol (dan awdurdod dirprwyedig):-
Fferm Pantstreimon, Capel Dewi – Annedd amaethyddol
Dwynant, Pontsian - Estyniad
Plot ger Tŷ Cerrig, Pontsian - Annedd
**Caniatâd Cynllunio:-**
Garden Cottage, Capel Dewi – Caniatâd i ddymchwel strwythur presennol nas defnyddir ac i ddarparu garej dwbl gyda llofft storio, casglwyr solar ac ystafell offer ar gyfer boeler biomas. Addasiadau er mwyn creu drws newydd.

d) **SLCC** – Correspondence was received. West Wales branch meeting is to be held on 29 October 2011, the Clerk will be attending.
e) **Welsh Religious Buildings Trust** – Notice of meeting to be held on 13 October 2011 re Carol Singing was received.
f) **Invoice** was received from Llinos Jones re translating for July and September in the sum of £244.35 and passed for payment.

13 **Maesymeillion – Sewerage Scheme** – Further follow up letter to be sent.
14 **Street Cleaning at Llandysul/Community Clean** to remain on the Agenda.
15 **Red Kiosks** – Further site meetings have taken place and progress is being made.
16 **Shields** – Shields have been ordered.
17 **BT Poles near Dolwallter** to remain on Agenda and raised with Ceredigion.
18 **Dog Fouling** – Clerk has been liaising with the Dog Warden covering Llandysul re signs and the situation is being assessed.
19 **Community Award** – No nominations have been made. It was decided to extend the closing date to 31 January 2012.
20**Young People in the Community – Criteria** to remain on the Agenda.
21 **Developments of Llandysul Flowers** – Winter planting is being discussed.
22 **Developments of Llandysul Xmas Lighting** – To be placed on the January Agenda.

23 **Planning**: Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 12 October, 2011 was received.
Cllr Mrs Philippa Davies declared an interest in Connection with Tŷ Cerrig and did not comment.
The following plans were approved (under delegated authority):-
Pantstreimon Farm, Capel Dewi – Agricultural dwelling
Dwynant, Pontsian – Extension
Plot near Tŷ Cerrig - Dwelling
**Planning Permission:-**
Garden Cottage, Capel Dewi – Consent for the demolition of existing redundant structure and the provision of a double garage with storage loft over, solar collectors and plant room for a bio mass boiler. Alterations to form new doorway.